# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

**DYDD** Iau, 12 Ebrill 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P.M. Hughes (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
P. Morris, Rheolwr Gorfodi Materion Amgylcheddol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddfa'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00am – 10.30am**

**1. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. GWELLIANT I REOLAU GORFODI O RAN TIPIO ANGHYFREITHLON**

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad ar gynnig i gyflwyno tocyn cosb benodedig, â gostyngiad am dalu'n gynnar, fel ffordd o waredu trosedd tipio anghyfreithlon, yn hytrach na mynd â'r mater i'r llys, a thrwy hynny osgoi prosesau cyfreithiol costus. Ar ôl adolygu'r gost o gael gwared ar dipio anghyfreithlon ar raddfa fach, roedd swyddogion o'r farn mai swm cymesur ar gyfer cosb benodedig fyddai £350, wedi'i ostwng i £180 pe byddid yn talu o fewn 10 diwrnod. Roedd y gallu hwn i gyflwyno tocyn cosb benodedig yn welliant o dan Adran 33z(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cosb benodedig o £350 ar gyfer tipio anghyfreithlon, ac o £180 pe byddid yn talu o fewn 10 diwrnod.**

**3. COFNOD PENDERFYNIADAU - 19 IONAWR, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2018, gan ei fod yn gywir.**

| | |
|---|---|
| ____________________ | ____________ |
| **AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** | **DYDDIAD** |

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales